# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2016-2017

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **24 Mai 2017.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Mandy Evans | Adran Etholiadol: | Bôn-y-maen |

| | |
|---|---|
| **Swydd Gyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhelir cymorthfeydd ddwywaith y mis, ac es i allan i gerdded yn gyson yn y ward i gwrdd ag etholwyr.

Gweithiais gyda'r holl sefydliadau yn y ward ac yn Abertawe er mwyn datblygu perthnasoedd gwaith i fagu hyder a gwella cyfleoedd ar gyfer fy etholwyr.
Gweithiais gyda'r Heddlu, Cymunedau'n Gyntaf, Banc Bwyd Dwyrain Abertawe ac es i i weld ysgolion yn fy ward i gefnogi'r disgyblion a'r staff.

Rwyf wedi bod yn gweithio ar ddatrys problemau parcio o gwmpas ysgolion a mannau poblogaidd yn y ward. Yn ychwanegol rwyf wedi bod yn gweithio ar faterion sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac sy'n ymwneud â chael gwared ar dir cyngor yn y ward.

Rwyf wedi cefnogi'r Cydlynydd Ardal Leol trwy ei gyflwyno i'r ward, lle datblygwyd perthnasoedd sydd wedi helpu i fagu hyder unigolion a'r gymuned.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 6 |
| Y Cyngor | 11 | / | 16 |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 9 | / | 14 |
| Panel Llywodraethwyr yr All | 1 | / | 10 |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol | 9 | / | 12 |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 | / | 3 |
| Panel Ymddiriedolwyr | 1 | / | 3 |
| **Cyffredinol** | **37** | **/** | **64** |

Yn anffodus roedd salwch wedi amharu ar fy nghofnod presenoldeb ar gyfer 2016-2017.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Yn ystod 2016-2017 fi oedd Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ataliaeth a Diwygio Gofal Cymdeithasol. Roeddem yn trafod materion megis:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
Taliadau Uniongyrchol
Gofal Preswyl
Canolfannau Dydd/Seibiant (gan gynnwys ymweliadau)
Asesiad Poblogaeth
Iechyd a deiet yn Abertawe (siwgr)
Gofalwyr a deddfwriaeth ar gyfer gofalwyr
Gwneud hawliau dynol yn berthnasol i bobl hŷn
Ymweld â Chyngor Sir Fynwy i drafod datblygu canolfannau dydd a gofal preswyl.
Adolygiadau comisiynu mewn perthynas â chanolfannau dydd, gofal cartref a gofal preswyl.
Cydlynwyr Ardaloedd Lleol
Ymwybyddiaeth o Ddementia.
Ailstrwythuro'r canolfannau gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'r tîm derbyn.

Cefnogais aelodau'r cabinet wrth gyflwyno polisi am y meysydd hyn er mwyn sicrhau bod y polisi'n datblygu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Cyfarwyddwr – Bay Leisure
Ymddiriedolwr Cyfarwyddwr – Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Aelod o'r Panel Maethu a'r Panel Magu Plant Corfforaethol lle'r wyf wedi bod yn cymryd rhan mewn diogelu.

Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu lle'r wyf wedi cael y cyfle i ddatblygu fy ngwybodaeth am drwyddedu.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Ymddiriedolwr banc bwyd dwyrain Abertawe lle'r oeddwn wedi helpu, fel gwirfoddolwr, i gefnogi'r banc bwyd trwy ofyn am roddion a gweithio gyda sefydliadau i sicrhau partneriaethau er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n hanfodol i gefnogi preswylwyr yn Abertawe sy'n ei chael hi'n anodd yn yr economi presennol.

Llywydd Clwb Paffio Bôn-y-maen, lle rwy'n gweithio gyda'r tîm i ddatblygu disgyblaeth a chyfleoedd ar gyfer unigolion.

Gweithiais yn y ward i ddiogelu cae 3G yng Nghefn Hengoed er mwyn gwella'r cyfleusterau hamdden ar gyfer Bôn-y-maen a Dwyrain Abertawe.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Es i i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

19/05/2017 - Gwneud Penderfyniadau Da, Tuedd, Penderfynu Ymlaen Llaw a Rheolau Cyfiawnder Naturiol.
18/05/2017 - Cyllid Llywodraeth Leol
11/05/2017 - Côd Ymddygiad
17/03/2017 - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ymlyniad

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Llywodraethwr yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed ac Is-gadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Pentrechwyth.

Es i i gyfarfod Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Illtud Sant.

Aelod o fanc bwyd dwyrain Abertawe lle gweithiais gyda First Great Western (FGW) a sefydliadau eraill i dderbyn rhoddion a chynyddu ymwybyddiaeth er mwyn cefnogi'n banc bwyd.

Rwyf wedi mynd i gyfarfodydd Cymunedau'n Gyntaf.

Rwyf wedi gweithio gyda phreswylwyr i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn y ward.

Llywydd Clwb Paffio Bôn-y-maen.

Cefnogais gynlluniau newydd yn y ward gan ddefnyddio fy nghyllideb gymunedol cynghorwyr.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30.10.17 |